# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Tan Y Graig, Bangor

Dyddiad arolygu: 12 Mawrth 2019

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mehefin 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@gov.wales**

**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-83876-472-2



© Hawlfraint y Goron 2019

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym................................................................................ 8

Ansawdd profiad y claf ........................................................................................9

Darparu gofal diogel ac effeithiol ......................................................................14

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ............................................................22

4. Beth nesaf? ................................................................................................... 24

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ................................................... 26

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .27

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol..........................................................28

Atodiad C – Cynllun gwella……………………………………………………..29

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da**

# Ein gwerthoedd

**Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:**

- **Annibynnol**
- **Gwrthrychol**
- **Gofalgar**
- **Cydweithredol**
- **Awdurdodol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Tan Y Graig yn 63 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd, LL57 1NR ar 12 Mawrth 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth Bod Practis Deintyddol Tan Y Graig yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen atgyweirio ac uwchraddio rhywfaint o'r cyfleusterau clinigol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y practis yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio cyfarpar pelydr-x yn ddiogel
- Cofnodion o safon ragorol

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn y practis yn cael hyfforddiant tân ffurfiol
- Rhoi cynlluniau adnewyddu ar waith yn raddol gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i adnewyddu'r ystafell ddihalogi a deintyddfa 2
- Cwblhau archwiliad rheoli heintiau Deoniaeth Cymru (WHTM) 01-05
- Cynnal system gadarnach o gofnodi dyddiad dod i ben offer i'w defnyddio mewn argyfwng

- Cynnal rhaglen o archwiliadau clinigol

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Tan Y Graig yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bangor.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un therapydd, dwy nyrs ddeintyddol a rheolwr practis dynodedig.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Tan Y Graig yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarparwyd iddynt.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn dda, yn dda iawn neu'n ardderchog.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron mae'r canlynol:

> *"Mae'r staff yn gyfeillgar, yn gymwynasgar a bob amser yn barod i helpu a deall eich problemau. Maent bob amser yn helpu gydag apwyntiadau. Dull proffesiynol o ddelio â'r cleifion"*
>
> *“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn effeithlon. Mae Rheolwr y Practis yn gymwynasgar iawn”*
>
> “*Gofal a gwasanaeth ardderchog.*”
>
> *"Rwy'n hapus iawn gyda'r gofal rwyf wedi'i dderbyn yn Tan Y Graig. Mae'r deintydd a'r staff cymorth yn gyfeillgar iawn ac yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am unrhyw driniaeth. Rwyf wedi argymell Tan Y Graig i ffrindiau a theulu"*
>
> *“Roedd y gwasanaeth yn ardderchog”*

*"Maent bob amser yn gymwynasgar ac yn broffesiynol iawn. Maent yn hyblyg o ran apwyntiadau (sy'n golygu nad oes yn rhaid i mi fethu'r gwaith). Gwasanaeth gwych, ac rwy'n ei werthfawrogi'n fawr"*

## Cadw'n iach

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol yn y dderbynfa / ardal aros, a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posteri a thaflenni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn yr ardal aros a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' wrth ymyl yr ystafell aros a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg[1].

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle gallai cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw cleifion.

Nodwyd nad oedd dogfen 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) 2[2] ar gael i gleifion ar gais yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i

---

[1] Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 - Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol. Gwnaeth y practis arddangos poster Egwyddor 9 yn yr ystafell aros ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny) a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Yn ogystal â hyn, dywedodd pob claf ond un wrthym, eu bod bob amser yn cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Hefyd, roedd tystiolaeth bod cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym. O ganlyniad, roedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros hefyd.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd ar gael yn y dderbynfa. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y daflen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a aeth ati ar unwaith i ddiweddaru'r daflen yn ystod ein hymweliad, gan nodi'r wybodaeth ganlynol:

- orau agor y practis ac unrhyw drefniadau i gleifion sydd angen gofal brys neu driniaeth y tu allan i oriau
- y trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff
- y trefniadau ar gyfer delio â chwynion
- y trefniadau ar gyfer datblygu a hyfforddi cyflogeion yn briodol;
- hawliau a chyfrifoldebau cleifion gan gynnwys cadw at apwyntiadau.

---

[2] https://standards.gdc-uk.org/

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Gall rhai aelodau o staff y practis gyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd i'w glywed ar neges y peiriant ateb, ac roedd i'w weld ar y daflen wybodaeth i gleifion.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac roeddent yn fanwl iawn ac o ansawdd gwych. Roedd opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi a gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben.

### Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Golygai hyn fod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Mae grisiau yn arwain at fynedfa'r practis gyda chanllawiau cynorthwyol. Mae ramp cludadwy yn arwain at fynedfa'r practis ar gyfer y rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae'r cyfleusterau clinigol wedi'u lleoli ar lefel y llawr gwaelod, ac maent yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y weithdrefn wedi'i harddangos i'r cleifion. Gwelsom hefyd nad oedd y gweithdrefnau yn cynnwys y manylion canlynol:

- Ffynonellau cymorth ac eiriolaeth, megis y Cyngor Iechyd Cymuned
- Y trefniadau ar gyfer achosion lle na ellir cytuno ar ddatrysiad

Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn ac aeth ati ar unwaith i ddiwygio'r weithdrefn yn ystod ein harolygiad a threfnu i'r weithdrefn gael ei harddangos yn yr ystafell aros. Roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis systemau i gofnodi unrhyw gwynion a gyflwynwyd, eu monitro ac ymateb iddynt.

Dywedodd y practis wrthym yr ymdriniwyd ag unrhyw bryderon anffurfiol ar unwaith. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod canolog o unrhyw bryderon anffurfiol er mwyn nodi unrhyw themâu. Cytunodd y practis i wneud hyn ar unwaith.

Gwnaethom drafod system y practis i gael adborth gan gleifion; mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol a gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diweddaraf yn hynod o gadarnhaol. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o unrhyw adborth yn yr ardal aros / derbynfa, er mwyn dangos i gleifion bod y practis yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

Gwelsom hefyd fod blwch sylwadau ar gael yn yr ardal aros er mwyn i gleifion roi adborth ychwanegol neu adael awgrymiadau yn ddienw, yn ogystal â llyfr sylwadau yn y dderbynfa.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen adnewyddu ac uwchraddio'r ystafell ddihalogi a rhai ardaloedd clinigol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw rwystrau amlwg.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd toiledau ar gael at ddefnydd y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân iawn.

Roedd pob aelod o'r staff yn y practis wedi cael hyfforddiant tân mewnol. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod hyfforddiant tân ffurfiol yn cael ei ddarparu i bob aelod o'r staff. Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy, ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg amrywiol, megis iechyd a diogelwch a thân. Gwelsom fod angen adnewyddu'r asesiadau risg Iechyd a Diogelwch. Trefnodd y practis ar unwaith i gontractwr allanol adolygu a diweddaru eu hasesiadau risg yn ystod ein hymweliad. Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben a gwelsom ddigon o ddogfennau a oedd yn dangos bod y practis wedi ystyried pob risg fewnol ac allanol i staff, ymwelwyr a chleifion.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith a gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/dadebru brys. Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn y practis yn cael hyfforddiant tân ffurfiol.

Sicrhau y caiff yr asesiadau risg iechyd a diogelwch eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwnaethom ystyried y trefniadau dihalogi ac roedd y broses a welsom yn foddhaol. Fodd bynnag, nodwyd bod angen adnewyddu'r ystafell ddihalogi. Dangosodd y staff y broses ddihalogi a gwelsom y canlynol:

- Roedd yr offer a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol a'u dyddio
- Roedd offer diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint
- Roedd cynwysyddion storio offerynnau yn gryf â chaeadau diogel arnynt.

Mae'r practis wedi cynnal rhaglen adnewyddu sylweddol ar gyfer y safle ac mae'n parhau i fuddsoddi ynddi. Gwelsom fod cynlluniau ar waith ar gyfer yr ystafell ddihalogi a deintyddfa 2. Argymhellwn fod y practis yn rhoi'r cynlluniau adnewyddu ar waith yn raddol gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i adnewyddu'r

ystafell ddihalogi a deintyddfa 2. Rydym yn argymell y dylai'r ystafell ddihalogi gynnwys y canlynol pan gaiff ei hadnewyddu:

- sinc bwrpasol i olchi dwylo,
- llawr newydd ag ymylon crom,
- cefnfyrddau yn hytrach na phapur wal

Nes y bydd y gwaith adnewyddu yn cael ei gwblhau, rydym yn argymell bod angen darparu dwy fowlen yn yr ystafell ddihalogi, un ar gyfer glanhau a'r llall ar gyfer rinsio.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen adnewyddu'r archwiliadau rheoli heintiau. Rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar y byddai trefniadau yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl i gwblhau'r archwiliadau.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer yr awtoclafau[3] a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddidoli a'i osod yn y bagiau / cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel a threfniadau cadw tŷ a glanhau.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis

[3] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio ager dirlawn pwysedd uchel

B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhoi cynlluniau adnewyddu ar waith yn raddol yn y practis gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i adnewyddu'r ystafell ddihalogi a deintyddfa 2

Nes y bydd y gwaith adnewyddu yn cael ei gwblhau, rydym yn argymell bod angen darparu dwy fowlen yn yr ystafell ddihalogi, un ar gyfer glanhau a'r llall ar gyfer rinsio.

Cwblhau archwiliad rheoli heintiau Deoniaeth Cymru (WHTM) 01-05.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion. Roedd yr holl staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) diweddaraf ac roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf penodedig. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y bydd nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant yn derbyn hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) pan fydd y tîm yn adnewyddu'r hyfforddiant ar ddiwedd mis Ebrill.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylai'r practis symud unrhyw hen gyfarpar neu gyfarpar nas defnyddiwyd o'r pecyn. Gwnaethom hefyd ei gynghori i ystyried cael bocs argyfyngau meddygol llai a fyddai'n haws ei gludo mewn argyfwng.

Gwelsom dystiolaeth fod system ar waith i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom fod y pecyn argyfwng yn cynnwys tiwbiau aer a oedd wedi dyddio ac nid oedd bag hunanchwyddo i blant. Gwnaethom argymell i'r practis eu bod yn cynnal system gadarnach o gofnodi dyddiad dod i ben eitemau caledwedd.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r pecyn argyfwng ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal system gadarnach o gofnodi dyddiad dod i ben offer argyfwng.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisïau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid oedd y polisïau yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol nac unrhyw siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn, a gytunodd i ddiweddaru'r polisi.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom fod angen i'r prif ddeintydd adnewyddu ei hyfforddiant amddiffyn plant. Cawsom sicrwydd ar lafar y byddai'r hyfforddiant yn cael ei adnewyddu. Roedd y practis wedi penodi aelod o staff i arwain materion diogelu, a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn ac sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad i staff ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda rheolwr y practis a'r prif ddeintydd a'u bod yn hyderus y byddent yn ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[4] ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Nid oedd

[4] Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

tystysgrif DBS y therapydd ar gael i ni ei gweld. Dywedwyd wrthym hefyd fod gwiriadau DBS yn cael eu prosesu ar gyfer dau aelod o'r staff ar hyn o bryd. Roedd gan bob aelod arall o'r staff perthnasol dystysgrif DBS dilys ar waith. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod perthnasol o staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod y polisïau diogelu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ynghyd â siartiau llif i hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Prif ddeintydd i adnewyddu ei hyfforddiant amddiffyn plant.

Anfon manylion am dystysgrifau DBS y therapydd a dwy nyrs ddeintyddol ymlaen at AGIC.

### Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol a gwelsom fod y deintyddfeydd yn cynnwys cyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion. Gwelsom fod deintyddfa 1 yn drefnus, yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod angen gosod llawr newydd yn neintyddfa 2. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, mae'r practis yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglen o waith adnewyddu ac mae cynlluniau ar waith i newid y llawr. Nes y bydd y gwaith adnewyddu'n dechrau, rydym yn argymell y dylid selio ymylon y llawr yn neintyddfa 2.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel ac roedd y practis yn cynnal archwiliadau blynyddol i sicrhau ansawdd y delweddau pelydr-x. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio. Nid oedd y practis wedi defnyddio Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ar gyfer

Ymbelydredd Ïoneiddio[5] sef adnodd a ddatblygwyd i ddefnyddio pelydrau-x mewn Gofal Deintyddol Sylfaenol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod ymylon y llawr yn neintyddfa 2 yn cael eu selio.

Cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod y practis wedi cwblhau archwiliadau perthnasol megis; ansawdd pelydr-X, croes-heintio, hylendid dwylo, cadw cofnodion a glanhau offerynnau. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis raglen benodedig ar waith i gynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol. Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen o archwiliadau ar waith drwy gydol y flwyddyn, a ddylai hefyd gynnwys yr Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO) o archwiliadau rhagnodi gwrthfiotigau a rhoi'r gorau i smygu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal rhaglen o archwiliadau clinigol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth drafod â'r staff, dywedwyd wrthym fod staff clinigol wedi cymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion.

---

[5] https://dental.walesdeanery.org/quality-improvement/patient-safety-human-factors/qi-tool-ionising-radiation

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn hunanwerthuso fel tîm drwy ddefnyddio cynllun arfer da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw o bob ffeil electronig yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gudd.

Roedd polisi diogelu data ar waith er mwyn hysbysu staff o'r hyn sy'n ofynnol iddynt ei wneud.

### Cadw cofnodion

Cafodd sampl o gofnodion cleifion y deintydd a'r therapydd ei hadolygu. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol rhagorol, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a adolygwyd gennym wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer y claf hwnnw ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir iawn, yn ddarllenadwy ac o ansawdd rhagorol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd ac roedd yn effeithlon ac yn gymwys yn ei rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau.

Nodwyd gennym fod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi llofnodi'r polisïau i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Gwnaethom gynghori y dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a rhif fersiwn a chytunodd rheolwr y

practis i wneud hyn. Bydd hyn yn sicrhau y caiff polisïau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn cadarnhau bod arferion lleol yn gyfredol.

Gwelsom gopi o'r Datganiad o Ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar ei gyfer. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Nodwyd gennym fod gan yr aelodau o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom hefyd fod gan y practis raglen sefydlu, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl yn cael eu cadw. Os na all unrhyw aelod o staff fod yn bresennol, mae rheolwr y practis yn tynnu ei sylw at y cofnodion. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r materion a'r trafodaethau a gynhelir mewn perthynas â'r practis.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Gwelsom fod y pecyn argyfwng yn cynnwys tiwbiau aer a oedd wedi dyddio ac nid oedd bag hunanchwyddo i blant. | Roedd hyn yn golygu y byddai plant ac oedolion mewn perygl pe bai argyfwng. | Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn, a drefnodd i'r eitemau gael eu prynu ar unwaith. | Archebodd y staff yr eitemau ar unwaith ar ddiwrnod ein harolygiad i'w dosbarthu drannoeth. |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Tan Y Graig

## Dyddiad arolygu: 12 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Tan Y Graig

## Dyddiad arolygu: 12 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dd/G | | | | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn y practis yn cael hyfforddiant tân ffurfiol. | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; PDR 8, 22 | Chwilio am ddarparwyr | Nathalie Wilkes | Gorffennaf |
| Sicrhau y caiff yr asesiadau risg iechyd a diogelwch eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol. | | DBG | Nathalie Wilkes | Cwblhawyd |
| Rhoi cynlluniau adnewyddu ar waith yn raddol yn y practis gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i adnewyddu'r ystafell ddihalogi a deintyddfa 2 | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, WHTM | Cam wrth gam, gan ddechrau gyda deintyddfa 2 ac yna'r ystafell ddihalogi. | Nathalie Wilkes | Deintyddfa 2 o fewn 3 Mis<br>Ystafell |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 01.05 | | | ddihalogi o fewn 12 mis |
| Nes y bydd y gwaith adnewyddu yn cael ei gwblhau, rydym yn argymell bod angen darparu dwy fowlen yn yr ystafell ddihalogi, un ar gyfer glanhau a'r llall ar gyfer rinsio. | | | Nathalie Wilkes | CWBLHAWYD |
| Cwblhau archwiliad rheoli heintiau Deoniaeth Cymru (WHTM) 01-05. | | | Megan Paige Roberts | CWBLHAWYD |
| Cynnal system gadarnach o gofnodi dyddiad dod i ben offer argyfwng. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau; PDR 8 | | Gemma Partington | CWBLHAWYD |
| Sicrhau bod y polisïau diogelu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ynghyd â siartiau llif i hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg; PDR 14 | Mae'r wybodaeth wedi'i rhoi ar ochr fewn y drôr yn y dderbynfa er mwyn gallu cael gafael arni'n hawdd.<br>Bydd y wybodaeth yn cael ei hychwanegu at y polisi ac yn cael ei thrafod gyda'r staff yn y cyfarfod nesaf. | Nathalie Wilkes | 3 mis |
| Prif ddeintydd i adnewyddu ei hyfforddiant amddiffyn plant. | | Isopharm a chynhadledd ddeintyddol Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. | Baleseng Modubu | Mai 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Anfon manylion am dystysgrifau DBS y therapydd a dwy nyrs ddeintyddol ymlaen at AGIC. | | Mayflower - ceisiadau ar-lein | Nathalie Wilkes | Ar waith |
| Sicrhau bod ymylon y llawr yn neintyddfa 2 yn cael eu selio. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol PDR 8 | Gosod llawr newydd yn neintyddfa 2 fel blaenoriaeth. | Nathalie Wilkes | Fel uchod |
| Cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio. | | | Baleseng Modubu | Cwblhawyd |
| Cynnal rhaglen o archwiliadau clinigol. | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; PDR 8 | | Nathalie Wilkes a Baleseng Modubu | Cwblhawyd |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dd/G | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Enw (priflythrennau):** | **Nathalie Wilkes** |
| **Swydd:** | **Rheolwr y Practis (clinigol)** |
| **Dyddiad:** | **14/05/2019** |